

Cyngor Cymuned Llanelian (261)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Ionawr 6ed, 2015 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Thomas D Jones Gordon Hayes	Carol Whitaker Glenys Jones David Herbert	T Elfyn Hughes John Griffiths Cyng. Aled Morris Jones
------------	--	---	---

Ymddiheuriadau: Helen Hughes David Gerrard

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Thomas D Jones – Cais cynllunio Maes y Groes

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Elfyn Hughes, pawb yn gyfun.

4 Materion yn Codi

4.1 Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen –

Wedi derbyn pris am symud y see-saw ac am see saw newydd, trafodwyd gwahanol opsiynau oedd ar gael i'r Cyngor. Cytunwyd bod y Cyngor yn penodi GL Jones i wneud y gwaith i'r siglenni ac i dynnu'r see saw a'i gadw yn y storfa ar Faes Llwyfo. Yn y cyfamser bydd y Clerc yn holi am bris gan gwmnïau eraill am see-saw newydd er cymhariaeth.

CET

4.2 Partneriaeth Llwyfo –

Cafwyd cadarnhad bod y broses o drosglwyddo'r maes chwarae wedi ei gychwyn a bod y cyfreithiwr yn disgwyl cadarnhad gan y Cyngor eu bod yn fodlon a'r cynnig. Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf iddynt er gwybodaeth.

CET

4.3 Golau ger y Neuadd –

Mae trydanwr lleol wedi rhoi pris o £180+tax am osod golau 'photocell' ar y Neuadd fydd yn goleuo'r grisiau a'r lon gyferbyn. Hwn fyddai'r opsiwn rhataf gan y byddai angen peiriannau a chaniatad i dyllu'r lon a gosod golau ar y polyn trydan gyferbyn. Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau costau rhedeg golau o'r fath, a gofyn hefyd am gostau lamp LED er cymhariaeth.

CET

4.4 Ffos ger Tŷ Canol –

Cafwyd ebost gan Mon Williams yn datgan bod y Cyngor Sir wedi mabwysiadu polisi 'no culverting' Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly nid ydynt yn caniatáu i unrhyw ffos gael ei lenwi na'i bibellu heb fod rheswm digonol. Mae'r ebost yn cadarnhau bod y polion adlewyrchu wedi eu gosod. Gofynnwyd yr aelodau i'r Clerc drefnu cyfarfod ar y safle er mwyn trafod y sefyllfa ymhellach. Mae nifer o ddamweiniau yn yr ardal gyda cerbydau yn disgyn i'r ffos yma a ffosydd cyfagos yn reolaidd.

CET

4.5 Cofrestrfa Tir –

Fe gadarnhaodd y Clerc ei bod wedi edrych am y dogfennau priodol i gofrestru tir y Fynwent a'r Cae Chwarae gyda'r gofrestrfa ond bod angen cyfreithiwr i gwblhau y ffurflenni angenrheidiol. Teimlai'r aelodau ei fod yn hanfodol bod y tir a'r terfynnau yn cael ei gofrestru, ac fe ofynnwyd i'r Clerc gadarnhau beth fyddai'r gost gan gyfreithwyr Tudur Owen, Roberts Glynne and Co am wneud y gwaith ar ran y Cyngor.

CET

4.6 Grid Cenedlaethol –

Cafwyd ddiweddariad o broses ymgynghori y Grid Cenedlaethol o'u gwefan. Bydd angen disgwyl y cam nesaf o ymgynghoriad cyn bydd trafod llwybrau posib ar gyfer ceblau trydan. Deallwyd bod posibilrwydd o ddefnyddio hen beilonau Alwminiwm Mon a wedyn mynd a'r ceblau oddi yno tanddwr i'r tir mawr.

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau –

Roedd tri cais i'w trafod

1) Plot 1 Maes y Groes, Nebo – dim sylw

2) Plot 2 Maes y Groes, Nebo – roedd pryder ynglŷn ag addasrwydd, maint a defnydd posib y garej.

3) Gorwel Las, Llanelian – cefnogi

CET

5.2 Penderfyniadau -

Nid oedd penderfyniadau i'w cyflwyno.

6 Materion Ariannol

- 6.1 Cafwyd wybod bod cyfrifon y Cyngor wedi eu paratoi hyd ddiwedd Rhagfyr 2014, a'u bod ar gael os oedd unrhyw aelod am gael golwg arnynt yn dilyn y cyfarfod.
- 6.2 Taliadau – nid oedd taliadau i'w cymeradwyo. Rhoddwyd hawl i'r Clerc archebu adnoddau gweinyddol.
- 6.3 Mae angen cymeradwyo y gyllideb a'r briseb yn y cyfarfod nesaf, ac felly pwysleiswyd pwysigrwydd bod pob aelod yn bresennol.
- 6.4 Ffurf y gyllideb – mae canllawiau newydd yn ymwneud a chyllid cyngorau wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar. Bydd posib defnyddio templed yma ar gyfer penawdau gwariant 2015/16. Mae hyn yn cynnwys Incwm ac arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau penodol.

7 Polisiau'r Cyngor

- 7.1 Mae'r rheoliadau ariannol yn barod i'w cymeradwyo.
- 7.2 Fe drafodwyd a chadarnhawyd geirfa ar gyfer nifer o bwyntiau i'w cynnwys yn y rheolau sefydlog. Bydd y Cadeirydd a'r Clerc wedi diweddarau'r ddogfen yn barod i'w mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf. CET/DG
- 7.3 Bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod eto i drafod y polisiau eraill cyn gynted a phosib cyn adrodd yn ol i'r pwyllgor llawn. CET/DG/H FW/T EH

8 Gohebiaeth

Nid oedd gohebiaeth i'w drafod.

9 Unrhyw Fater Arall

- 9.1 Fe ofynnwyd am ddiweddariad am wefan y Cyngor, a deallwyd ei fod yn fyw ar hyn o bryd ac yn cael ei ddiweddarau a chofnodion y Cyngor yn fisol.
- 9.2 Daethpwyd i sylw'r Cyngor bod nifer o bobl yn cwyno am ddau hen garafan sydd wedi eu gosod mewn caeau ar Fynydd Eilian. Mae un ger Tros y Mynydd, a'r llall ger Ty Moel, y ddau mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Cytuno ysgrifennu at y Cyngor Sir i dynnu sylw. CET

10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 3/2/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.15 o'r gloch.